# Equality & Diversity Policy
# *Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth*

| | | |
|---|---|---|
| **Scope:** | ***Cwmpas*** | All RYA Cymru Wales activity<br>*Holl weithgaredd RYA Cymru Wales* |
| **Version:** | ***Fersiwn*** | 2.0 –Sept 2016 /*Medi 2016* |
| **Authorisation:** | ***Awdurdodwyd gan:*** | *Bwrdd* RYA Cymru Wales Board |
| **Authorisation Date:** | ***Dyddiad Awdurdodi*** | 2/10/16 |
| **Date of Review:** | ***Dyddiad ei Adolygu*** | Sept 2016 /*Medi 2016* |
| **Date of Next Review:** | ***Dyddiad yr Adolygiad Nesaf*** | 2/10/17 |


| **Contents**<br>***Cynnwys*** | | **Page**<br>***Tudalen*** |
|---|---|---|
| **1** | Tracking & Monitoring Sheet<br>*Ffurflen Tracio & Monitro* | 1. |
| **2** | Policy (English) | 2. |
| **3** | *Polisi (Cymraeg)* | 3. |
| **Appendix 1** | Equality Monitoring | |
| ***Atodiad 1*** | *Monitro Cydraddoldeb* | |


## 1 Monitoring & Tracking Document - *Ffurflen Tracio a Monitro*

| **Page Number *Rhif y Tudalen*** | **Update *Diweddariad*** | **Comment *Sylw*** | **Date Amended *Dyddiad y Diwygio*** |
|---|---|---|---|
| *2.* | *Removal of social status from policy* | *Equality policies should cover the 9 protect characteristics.* | *Nov 2016* |
| *3.* | *"* | *"* | *Nov 2016* |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## 2. Policy

### Objectives

- To make boating in all its forms an activity that is genuinely open to anyone who wishes to take part.

- To provide the framework for everyone to enjoy the sport, in whatever capacity and to whatever level the individual desires.

- To ensure that our programmes and activities are accessible to all, including those who have been under-represented in the past.

### Policy Statement

RYA Cymru Wales is committed to the principle of equality of opportunity. We aim to ensure that all present and potential participants, members, instructors, coaches, competitors, officials, volunteers and employees are treated fairly and on an equal basis, irrespective of sex, age, disability, race, religion or belief, sexual orientation, pregnancy and maternity, marriage and civil partnership, gender reassignment.

### Implementation

- The RYA Cymru Wales encourages all its affiliated clubs and organisations including RYA Training Centres to adopt a similar policy, so that they are seen as friendly, welcoming and open to all and have procedures in place to deal with any instances of discriminatory language or behaviour.
- Appointments to voluntary or paid positions within the RYA Cymru Wales will be made on the basis of an individual's skills and experience and the competencies required for the role.
- Working in partnership with the RYA we will work to ensure all our activities are accessible to people from all communities. In particular RYA will relax regulations in relation to RYA Training schemes which may inhibit the performance of candidates with special needs, provided that the standard, quality and integrity of the schemes assessments are not compromised.
- The RYA Cymru Wales will provide the necessary education and training so that all members are aware of this policy and our commitment to equality.
- The RYA Cymru Wales reserves the right to discipline any of its member clubs and organisations who are in breach of this policy.
- The effectiveness of this policy will be monitored and evaluated by the Board on an ongoing basis.
- A copy of this document and our implementation plan will be available on the RYA Cymru Wales website at [www.ryacymruwales.org.uk](http://www.ryacymruwales.org.uk)
- The CEO will take overall responsibility for ensuring that the policy is observed and the Board will appoint a Director as an Equality Champion to monitor this area of work.

## 3. *Polisi*

### *Amcanion y Polisi*

- *Sicrhau bod hwylio, yn ei holl agweddau, yn weithgaredd cwbl agored i bawb sy'n dymuno cymryd rhan.*

- *Darparu fframwaith fel y gall pawb fwynhau'r gamp, ym mha bynnag swyddogaeth ac i ba bynnag lefel y bydd unigolyn yn ei ddymuno.*

- *Sicrhau bod ein rhaglenni a'n gweithgareddau'n hygyrch i bawb, yn cynnwys y rhai sydd wedi eu tan-gynrychioli yn y gorffennol*

### *Datganiad Polisi*

*Mae RYA Cymru Wales wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfle cyfartal. Ein nod ydy sicrhau y bydd pawb sy'n gyfranogwyr neu'n ddarpar gyfranogwyr, aelodau, hyfforddwyr, addysgwyr, cystadleuwyr, swyddogion, gwirfoddolwyr a'r gweithlu yn cael eu trin yn gyfartal waeth beth fo'u statws o ran eu rhyw, oedran, anabledd, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhyw.*

### *Gweithredu*

- *Mae RYA Cymru Wales yn cymell ei holl glybiau a mudiadau cysylltiol, yn cynnwys canolfannau Hyfforddi'r RYA, i fabwysiadu polisi tebyg, fel eu bod yn cael eu hystyried yn gyfeillgar, croesawus ac agored i bawb a bod ganddyn nhw weithdrefnau ar waith i ddelio ag unrhyw achosion o ieithwedd neu ymddygiad sy'n gwahaniaethu.*
- *Caiff penodiadau i safleoedd gwirfoddol neu gyflogedig o fewn RYA Cymru Wales eu gwneud ar sail sgiliau a phrofiad yr unigolyn a'r cymwysterau sy'n angenrheidiol ar gyfer y rôl.*
- *Drwy weithio mewn partneriaeth â'r RYA byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein holl weithgareddau'n agored i bobl o bob math o gymunedau. Yn fwy penodol, bydd RYA yn llacio'r rheoliadau sydd ynghlwm â chynlluniau hyfforddi'r RYA allai fod yn llesteirio perfformiad ymgeiswyr gydag anghenion arbennig, ar yr amod na fydd cyfaddawdu ar safonau, ansawdd nac integriti asesiadau'r cynlluniau.*
- *Bydd RYA Cymru Wales yn darparu'r addysg a'r hyfforddiant angenrheidiol fel y bydd yr holl aelodau'n ymwybodol o'r polisi hwn ac o'n hymrwymiad i gydraddoldeb.*
- *Bydd RYA Cymru Wales yn cadw yr hawl i ddisgyblu unrhyw glwb, neu fudiad sy'n aelod, sydd yn torri'r polisi hwn.*
- *Caiff effeithiolrwydd y polisi hwn ei fonitro a'i werthuso gan y Bwrdd yn gyson.*
- *Bydd copi o'r ddogfen hon a'n cynllun gweithredu ar gael ar wefan RYA Cymru Wales: www.ryacymruwales.org.uk*
- *Bydd y Prif Weithredwr yn gyffredinol gyfrifol am sicrhau bod y polisi'n cael ei gadw a bydd y Bwrdd yn penodi un o'r Cyfarwyddwyr fel Hyrwyddwr Cydraddoldeb i fonitro'r maes hwn.*

**Appendix 1**

## Equality Monitoring

To ensure equality of access to our activities and enable us to monitor the application of our Equality Policy we will routinely collect and analyse information on employees and volunteers directly connected with our organisation and, where possible, sample survey our wider stakeholder groups including members, affiliated clubs, athletes, coaches, officials and participants at events.

If monitoring shows we are failing or could improve in any of our equality practices then an action plan will be developed to address these issues.

## Frequency and Timing

We will monitor across our various activities as follows:

| Population/Group | Monthly | Annual | Biannual | RYA statistics | Other | Responsibility for monitoring |
|---|---|---|---|---|---|---|
| RYA CW Board | | √ | | | | CEO/ Board Equality Lead |
| RYA Performance Committee | | √ | | | | RYA CW HPM |
| RYA CW Staff | | √ | | | | RYA CW Equality Lead |
| RYA CW Squads | | √ | | | | RYA CW HPM |
| RYA CW Academy | | √ | | | | RYA CW HPM |
| RYA Instructors, Trainers & Coaches | | | √ | √ | | RYA CW Equality Lead* |
| RYA Racing Coaches | | | √ | √ | | RYA CW Equality Lead* |
| RYA Race Officials | | | √ | √ | | RYA CW Equality Lead* |
| RYA Personal Members | | | √ | √ | | RYA CW Equality Lead** |
| RYA Affiliated Club Members | | √ | | √- Via Club Census data◊◊ | | RYA CW Equality Lead |
| Participants | | √ | | | Via Watersports Survey◊ | CEO/ RYA CW Equality Lead |
| | √ | √ | | √- OnBoard programme Statistics◊◊ | | RYA CW Equality Lead/ Development Team |
| | √ | √ | | √- Sailability programme Statistics | | RYA CW Equality Lead/ Development Team |

*Some data collection can only be facilitated through RYA HQ central database and due to data protection can only be facilitated via RYA HQ staff.

**Some of the data collection collected via RYA HQ central databases does not currently extract home country specific results. Where this situation exists we will benchmark against UK data and Welsh demographics.
◊Watersports Survey covers sex, age, race and impairment.
◊◊The Annual Club Census, OnBoard programme statistics cover age and sex.

We will tailor our data collection to minimise the risk of multiple surveys, maximise return rates and ensure collection remains relevant to the age range of the individuals surveyed. The information collected for equality monitoring will be treated as confidential and it will not be used for any other purpose.

| **Protected characteristic** | **Under 14** | **15-17** | **18+** |
|---|---|---|---|
| **Role** | No | Yes | Yes |
| 1. **Sex** | Yes | Yes | Yes |
| 2. **Age** | Yes | Yes | Yes |
| 3. **Disability** | Basic question and basic categories | Basic question and basic categories | Full question (including old age) and all impairments |
| 4. **Ethnic group** | Yes - main headings only | Yes- all categories | Yes - all categories |
| 5. **Religion or belief** | No | Yes | Yes |
| 6. **Sexual orientation** | No | No | Yes |
| 7. **Gender reassignment** | No | No | Yes |
| 8. **Marriage civil partnership** | No | No | No |
| 9. **Pregnancy or maternity** | No | No | No |
| **Welsh Language or other main language** | Yes | Yes | Yes |
| **Consent** | Parental consent required (tick box) | Parental consent required (tick box) | N/A |

## Reporting

The data collected will be analysed by RYA Cymru Wales Staff and reported annually to the RYA CW Board as part of the operational planning cycle. The reflective report will identify successes and examples of best practice as well as areas for improvement or new opportunities that should feed into the next planning cycle. An action plan will be drawn up and used to ensure departmental planning incorporates the desired changes.

## Equality Impact Assessments


RYA Cymru Wales has adopted the Plan4Sport Equality Impact Assessment (EIA) model for Sport Governing Bodies. We will undertake EIAs for:

- Annual plans.
- New policies.
- Policies at the point of review.
- Specific strategies at the point of review
- Our overall strategic plan at the point of review
- Targeted areas of work identified through monitoring.
- Reports to Board (initial screening with full EIA if felt appropriate).
- Areas of work affected by changes in legislation.
- Any other activity where an EIA is considered appropriate.

All EIAs will be reported to our Board.

## Operational Planning

Staff will conduct an Equality Impact Assessments (EIA) as part of their annual planning cycle. This will identify actions and risks and feed them into the operational plan.




The products of the compiled survey report and departmental EIAs will feed equality specific actions into the annual operational plan, identify new business risks to be added to the risk register and identify areas that require further work.

**Atodiad 1**

## Monitro Cydraddoldeb

Er mwyn sicrhau cydraddoldeb mynediad i'n gweithgareddau a chaniatáu i ni fonitro gweithrediad ein Polisi Cydraddoldeb, byddwn yn casglu a dadansoddi gwybodaeth yn gyson am ein gweithlu a'r gwirfoddolwyr sydd â chysylltiad uniongyrchol gyda'n sefydliad a, lle bo'n bosibl, yn cynnal arolygon samplo ymhlith ein grwpiau ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys aelodau, clybiau cyswllt, athletwyr, hyfforddwyr, swyddogion a rhai sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau.

Os dengys y monitro ein bod yn methu neu y gallem wella mewn unrhyw un o'n harferion cydraddoldeb, yna bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i ddelio â'r materion hyn.

## Amlder ac Amseriad

Byddwn yn monitro'n amryfal weithgareddau fel a ganlyn:

| Y Bobl / Grŵp | Misol | Blynyddol | Bob dwy flynedd | Ystadegau'r RYA | Arall | Cyfrifoldeb dros fonitro |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd RYA CW | | √ | | | | Prif Weithredwr /Aelod arweiniol Cydraddoldeb ar y Bwrdd |
| Pwyllgor Perfformiad RYA | | √ | | | | RYA CW HPM |
| Staff RYA CW | | √ | | | | Aelod arweiniol Cydraddoldeb RYA CW |
| Sgwadiau RYA CW | | √ | | | | RYA CW HPM |
| Academi RYA CW | | √ | | | | RYA CW HPM |
| Hyfforddwyr, Addysgwyr ac Athrawon RYA | | | √ | √ | | Aelod arweiniol Cydraddoldeb RYA CW* |
| Hyfforddwyr Rasio RYA | | | √ | √ | | Aelod arweiniol Cydraddoldeb RYA CW* |
| Swyddogion Rasys RYA | | | √ | √ | | Aelod arweiniol Cydraddoldeb RYA CW* |
| Aelodau Personol RYA | | | √ | √ | | Aelod arweiniol Cydraddoldeb RYA CW** |
| Aelodau Clybiau Cyswllt RYA | | √ | | √- drwy ddata Cyfrifiad Clwb ◊◊ | | Aelod arweiniol Cydraddoldeb RYA CW |
| Cyfranogwyr | | √ | | | Drwy Gyfrifiad Chwara-eon Dŵr ◊ | Prif Weithredwr / Aelod arweiniol Cydraddoldeb RYA CW |
| | √ | √ | | √- ystadegau rhaglen OnBoard ◊◊ | | Aelod arweiniol Cydraddoldeb RYA CW/ Tîm Datblygu |
| | √ | √ | | √- ystadegau rhaglen Sailability | | Aelod arweiniol Cydraddoldeb RYA CW/ Tîm Datblygu |

*Dim ond drwy Bencadlys RYA y gellir trefnu peth o'r casglu data ac oherwydd amodau diogelu data, dim ond staff Pencadlys RYA all ei ddarparu.

**Ar hyn o bryd nid yw peth o'r data a gesglir gan gronfeydd data canolog Pencadlys RYA yn gallu darparu canlyniadau ar gyfer gwledydd unigol y DU. Mewn achosion o'r fath byddwn yn meincnodi yn ôl data'r DU a demograffeg Cymru.
◊ Mae'r Arolwg Chwaraeon Dŵr yn cofnodi rhyw, oedran, hil a nam.
◊◊ Mae Cyfrifiad Blynyddol Clwb, ystadegau rhaglen OnBoard yn cofnodi oedran a rhyw.

Byddwn yn teilwra'n arolygon i leihau risg o arolygon lluosog, gan uchafu graddfeydd ymateb a sicrhau bydd y casglu'n berthnasol i ystod oedran o'r unigolion gaiff eu cyfrifo. Caiff y wybodaeth a gesglir ar gyfer monitro cydraddoldeb ei drin yn gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei ddefnyddio i unrhyw ddibenion eraill.

| **Nodweddion gwarchodedig** | **Dan 14** | **15-17** | **18+** |
|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth** | Na | Ie | Ie |
| 1. **Rhyw** | Ie | Ie | Ie |
| 2. **Oed** | Ie | Ie | Ie |
| 3. **Anabledd** | Cwestiwn sylfaenol a chategorïau sylfaenol | Cwestiwn sylfaenol a chategorïau sylfaenol | Cwestiwn llawn (yn cynnwys henaint) a phob nam |
| 4. **Grŵp ethnig** | Ie – prif benawdau'n unig | Ie- pob categori | Ie – pob categori |
| 5. **Crefydd neu gred** | Na | Ie | Ie |
| 6. **Cyfeiriadedd rhywiol** | Na | Na | Ie |
| 7. **Ailbennu rhyw** | Na | Na | Ie |
| 8. **Priodas neu bartneriaeth sifil** | Na | Na | Na |
| 9. **Beichiogrwydd neu famolaeth** | Na | Na | Na |
| **Cymraeg neu brif iaith arall** | Ie | Ie | Ie |
| **Cydsyniad** | Angen cydsyniad rhieni. (ticio blwch ) | Angen cydsyniad rhieni (ticio blwch) | Amherthnasol |

## Adrodd

Caiff y data a gesglir ei ddadansoddi gan Staff RYA Cymru Wales a'i adrodd yn flynyddol i Fwrdd RYA CW fel rhan o'r cylch cynllunio gweithredol. Bydd yr adroddiad adfyfyriol yn nodi llwyddiannau ac enghreifftiau o arferion gorau yn ogystal â'r meysydd sydd i'w gwella neu'r cyfleoedd newydd ddylai fwydo i'r cylch cynllunio nesaf. Caiff cynllun gweithredu ei greu a'i ddefnyddio i sicrhau bydd cynllunio adrannol yn ymgorffori'r newidiadau sydd eu hangen.

## Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb


Mae RYA Cymru Wales wedi mabwysiadu model Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) sydd gan Plan4Sport ar gyfer Cyrff Rheoli Chwaraeon. Byddwn yn cynnal asesiadau EIA ar gyfer y canlynol:

- Cynlluniau blynyddol.
- Polisïau newydd.
- Polisïau ar adeg yr arolwg.
- Strategaethau penodol ar adeg yr arolwg.
- Ein cynllun strategol cyflawn ar adeg yr arolwg.
- Meysydd gwaith targed a nodwyd drwy fonitro.
- Adroddiadau i'r Bwrdd (sgrinio cychwynnol gyda EIA llawn os bydd hynny'n briodol).
- Meysydd gwaith wedi'u heffeithio gan newidiadau mewn deddfwriaeth.
- Unrhyw weithgaredd arall lle ystyrir byddai cynnal EIA yn briodol.

Caiff pob asesiad EIA ei adrodd i'n Bwrdd.

## Cynllunio Gweithredol

Bydd staff yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) fel rhan o'u cylch cynllunio blynyddol. Bydd hyn yn nodi unrhyw weithredu a risgiau ac yn eu bwydo i'w cynllun gweithredol.




Bydd cyfuniad o'r adroddiad o grynhoad yr arolygon ac EIA yr adrannau yn bwydo gweithrediadau penodol ar gydraddoldeb i'r cynllun gweithredol blynyddol, gan nodi risgiau busnes newydd sydd i'w hychwanegu at y gofrestr risgiau a dynodi meysydd sydd angen rhagor o waith arnyn nhw.